BENTHYG CYMRU



# Pecyn Addysg

# Cynnwys


Cyfarfodydd boreol 4
Gweithdai 5
Ymweliadau 7
Cyfnewid tegannau 7
Llyfrgell Gwisgo i Fyny 8
Cyfnewidfa Gwisgoedd Ysgol 8
Siwmperau 'Dolig 8
Modelu sothach a Darnau rhydd 9
Dweud storïau ac ysgrifennu creadigol 10
Cwis 11
Cyfnewidfeydd sgiliau 13
Gweithio gydag ysgolion 14
Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru 15
Ac yn olaf... 16
Adnoddau 16




# Sut i ddefnyddio’r pecyn yma

Mae eich ysgol gynradd leol yn llawn meddyliau chwilfrydig sy’n cael eu hannog i ystyreid dyfodol y baned a ffyrdd o’i chynnal. Os gallwn ni siarad â phlant am benthyg a rhannu, mae siawns da y gallwn ni effeithio ar newid ymddygiad ymhlith eu rhieni ‘r gymuned ehangach.

Mae’r economi gylchol yn bwnc sy’n cael ei addysgu yn CA2 fel rhan i gwricwlwm llawer ehangach a gallwn ni gyfrannu tipyn o wybodaeth i’r staff addysgu er mwyn eu cynorthwyo ac ymgysylltu â’n cymunedau trwy’r bobl ifanc.

Mae yna gwricwlwm newydd i Gymru (gweler tudalen 15) ac os gallwch chi ddangos sut mae’ch gwaith chi’n cyd-fynd â gwaith ysgolion, gan gynnig atebion hawdd trwy ystod o gyfleoedd, bydd hyn o gymorth mawr a gobeithio yn agor drysau.

Mae’r pecyn yma yn rhywbeth i chi fanteisio arno yn ôl eich anghenion chi ac anghenion yr ysgolion rydych chi’n ymwneud â nhw. Bydd rhai ysgolion yn fodlon i chi arwain cyfarfod boreol, byd eraill yn croesawu ymweliad â’ch lleoliad chi neu weithdy. Ein gobaith yw y bydd rhai eisiau agor eu **Benthyg** eu hun!

Mae’r ymgysylltu yma’n cymryd amser ond mae creu dolenni a meithin perthynas dda â’r ysgolion lleol yn gallu bod yn amhrisiadwy. Defnyddiwch eich aelodau presennol sy’n rhieni ac yn ofalwyr i sefydlu cysylltiadau, gan nad yw hi bob amser yn hawdd gwneud y cysylltiad cychwynnol ag ysgolion.

Ond mae cynnig amrediad o syniadau’n fa cychwyn da, yn arbennig os ydych chi’n cyflenwi am ddim.

Hefyd rydym ni’n eich annog i chwilio am unrhyw gyfleoedd i gydweithredu’n lleol â sefydliadau i’r un anian.

Er bod y pecyn hwn wedi’i anelu at CA2, gallai peth ohono gael ei addasu i bob lefel ysgolion cynradd.



# Cyfarfodydd boreol

Fel arfer mae ymwelwyr o'r gymuned leol yn cael eu croesawu mewn ysgolion ac efallai bod cyfarfod boreol yn fan cychwyn da os gallwch chi ddangos sut mae dysgu am y llyfrgell pethau leol yn gallu cysylltu â'r cwricwlwm.

Dyma dri awgrym syml am gyflwyniadau cyfarfod boreol. Ceisiwch wneud sesiynau'n rhyngweithiol gyda llawer o gwestiynau i'w hateb.

1

**Ewch â detholiad o eitemau** gyda chi a siaradwch am eu defnydd a hyd eu hoes a'i gymharu â byd natur. Gallai hyn arwain at siarad am economïau llinellol a chylchol.

- Holwch y plant am eitemau yn eu cartrefi – pa mor aml ydy'r dril yn cael ei ddefnyddio? Tocwyr gwrych? Peiriant gwneud bara?
- I ble mae eitemau di-eisiau yn mynd? Mae'r adnodd Eco-Ysgolion ar dudalen 16 yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol neu gallech chi ddefnyddio fideo Ellen Macarthur – mae'r hanner cyntaf yn rhoi esboniad clir.
- Cyflwynwch y cysyniad o fenthyg a rhannu a thrafodwch y syniad o lyfrgell pethau yn hytrach na llyfrgell llyfrau. Ydy'r plant yn benthyg llyfrau? Pam ydy benthyg yn beth da? Beth ydy'r manteision?

Rydych chi'n gwybod yr atebion!

2

**Canolbwyntiwch ar degannau, gemau a gwisgoedd** – gallai hyn fod o fudd adeg Nadolig neu Galan Gaeaf a gallai gysylltu â'r ysgol y trefnu swop tegannau neu wisgoedd gyda'ch help chi.

- Ewch â detholiad gyda chi a siaradwch am beth sy'n digwydd iddyn nhw pan nad oes eu hangen ragor, fel uchod.
- Gofynnwch i'r plant am awgrymiadau i ddatrys y broblem yma – ydyn nhw'n gallu ei datrys?

3

**Beth ydy llyfrgell pethau?**

- Holwch y plant a ydyn nhw erioed wedi clywed amdani? Beth ydy hi?
- Esboniwch y cysyniad yn syml
- Beth allen nhw ei roi?
- Beth hoffen nhw ei fenthyg – iddyn nhw? I'w teulu?

# Gweithdai

Fel dull ymgysylltu cychwynnol, dylai'r cynnig gweithdy ymarferol fod yn ddeniadol i ysgolion.

Bydd creu cysylltiad â'r cwricwlwm cenedlaethol yn fuddiol fel y bydd cynnig cymorth pellach  pe bai'r ysgol yn dymuno trefnu cyfnewidfeydd neu ddechrau ystyried sefydlu eu Benthyg eu hun.

Mae cynnig dewis i ysgolion yn ddelfrydol – efallai eu bod nhw eisiau rhywbeth sy'n debyg i bynciau'r cyfarfod boreol neu rywbeth mwy penodol. Os ydy'ch ysgol yn Eco-Ysgol, bydd yn awyddus i gynnwys y plant mewn unrhyw waith trefnu gweithgareddau, fel cyfnewid tegannau neu gyfnewid gwisgoedd ysgol (gallwch chi ddysgu mwy am y rhain yn nes ymlaen) ac mae rhai ffeithlenni ar gael ar eu gwefan y gallech chi eu defnyddio hyd yn oed os nad ydy'r ysgol yn Eco-Ysgol.

Dyma ddwy thema gallech chi eu defnyddio.

## 1 Beth sydd yn eich tŷ?

1 Gofynnwch i'r plant weithio mewn parau neu grwpiau bach (neu gael eu harwain gan yr athro ar hyn) ac i feddwl am eu cartrefi a beth allai fod mewn cypyrddau, droriau, y gegon, y garej, siec yr ardd, atig. Gallai gofod penodol gael ei aseinio i bob pâr/grŵp. Rhowch enghreifftiau o bob gofod.


2 Dylai'r plant wneud rhestr o eitemau a'i rhannu â'i gilydd pan ofynnir. Gallai'r rhestri gael eu gwneud gyda nodiadau Post-it a'u glynu ar ddalen i'w harddangos.

3 Gweithgaredd i'r grŵp cyfan – Rhannu eitemau yn ôl eu defnydd – dyddiol, achlysurol, blynyddol. Gallai hyn gael ei ysgrifennu ar fwrdd gwyn neu gallai nodiadau Post-it gael eu symud i golofnau ar fwrdd gwyn

4 Trafodaeth dosbarth cyfan am y rhestri achlysurol a blynyddol - oes angen i ni fod yn berchen ar yr eitemau yma? Gallen ni eu rhoi nhw i ffwrdd? Gallen ni eu benthyg? Beth ydy manteision perchnogaeth? Beth ydy manteision benthyg/rhannu?








## 2 Dylunio gêm bwrdd

1. Paratowch am hyn trwy ddarlunio'r economi llinellol a chylchol yn weledol a gofyn cwestiynau i wirio eu bod yn deall. Gallech chi ddefnyddio'r enghreifftiau o dan adnoddau (gweler tudalen 16) neu'n syml defnyddio bwrdd gwyn a gofyn i'r plant eich helpu.
2. Siaradwch am y camau ym mhob system a gofyn am enghreifftiau o bobl un. Yna gallen nhw gael eu hymgorffori yn y gêm. E.e. ailgylchu - cymryd eitemau i'r tip, defnyddio sachau gwyrdd, cymryd i fan casglu Tetrapak, gwneud tŷ gwydr o boteli plastig.
3. Gofynnwch i'r plant ystyried y canlynol – Fydd y gêm yn cynnwys cardiau dewis? Fydd e'n defnyddio dis? Fydd yna wobrau? Beth fydd y llwybr yn ei gynrychioli? Beth fyddwch chi'n eu defnyddio'n ddarnau chwarae? Gallai hyn gael ei atgynhyrchu ar-lein?

   Gallai'r gêm ddangos manteision yr economi gylchol ac anfanteision y llinellol. Rhowch yr offer a'r wybodaeth i'r plant ac arhoswch i weld beth maen nhw'n ei ddyfeisio.



# Ymweliadau

Bydd hyn yn dibynnu ar eich lleoliad ond os oes gennych chi le, gallech chi wahodd grwpiau bach i ymweld a threfnu wgeithgaredd difyr fel codi pabell, cyfrif a phwyso rhannau o gemau (jigsos, setiau adeiladu)

Os oes gennych chi Gaffi Trwsio yn lleol, beth am drefnu hyn gyda'ch gilydd a'i gyfuno â dod â rhywbeth sydd wedi torri i gael ei drwsio.

Gwnewch yn siŵr y gallwch chi roi rhywbeth i bob ymwelydd fynd ag ef adref gyd anhw y gallen nhw ei ddangos i'w rhieni/ gofalwyr. Gallai hyn fod yn docyn am fenthyciad am ddim neu'n daflen neu unrhyw gynnig arall hoffech chi ei drefnu.

Os ydy'r plant wedi cael eu hysgogi a'u hysbrydoli, byddan nhw eisiau rhannu eu gwybodaeth a'u syniadau newydd â rhieni/ gofalwyr, felly mae'n gyhoeddusrwydd gwych am eich Benthyg lleol.

Cofiwch gynnal asesiad risg yn gyntaf a'i anfon at yr ysgol gan y byddan nhw'n gallu ei ymgorffori gyda'i un eu hun wedyn.

# Cyfnewid tegannau

Gallai cyfnewidfa tegannau arwain at lyfrgell tegannau ar wahân os oedd digon o le o fewn ysgol.

Gallai cyfnewidfa tegannau gael ei chynnal fesul dosbarth i ddechrau i fesur y diddordeb. Mae'r plant yn dod â thegannau i mewn nad ydyn nhw eu heisiau ragor ac yn fodlon eu rhoi i ffwrdd. Byddai'n rhaid iddyn nhw fod yn gyflawn ac yn lân.


Am bob eitem rydych chi'n ei rhoi rydych chi'n derbyn tocyn y gallwch chi ei roi yn gyfnewid am eitem arall.

Neu efallai y penderfynwch chi ei threfnu'n wahanol – efallai y bydd gan y plant eu syniadau eu hun. Ni fydd pob plentyn yn dymuno cymryd rhywbeth a does dim rhaid iddyn nhw.

Mae hyn yn sbarduno'r cysyniad o gadw eitemau di-eisiau mewn defnydd a gallai arwain naill ai at yr ysgol yn sefydlu ei llyfrgell tegannau ei hun os oes ganddi'r lle a'r diddordeb, neu annog aelodaeth a rhoddion i'r Benthyg lleol.

Gallech chi drefnu casgliad bob tymor o'r ysgol a fyddai hefyd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth.






# Llyfrgell gwisgo i fyny

Mae ysgolion yn aml yn gofyn i blant wisgo i fyny yn ystod y flwyddyn ysgol ac wrth reswm mae gorfod prynu'n newydd yn wastraffus yn ogystal ag yn gostus.

Mae gan lawer o ganghennau Benthyg adran dillad gwisgo i fyny'n barod felly gallai fod mor syml â hysbysebu'r ffaith yma i ysgolion, ond gallai ddatblygu hefyd i fod yn Llyfrgell Gwisgo i Fyny bwrpasol o fewn yr ysgol os oes ganddi ddigon o le a gallech chi gynnig helpu gyda hyn.

Unwaith eto, yn yr un ffordd â theganau a gemau, byddai angen i'r eitemau fod yn lân ac mewn cyflwr da.



# Siwmperau Nadolig

Yn debyg i'r syniad am wisgoedd – beth am awgrymu hyn i'ch ysgol a chynnig helpu wrth nesáu at y Dolig?

# Cyfnewid gwisgoedd ysgol

Mae hyn wedi cael ei wneud yn llwyddiannus mewn nifer o ardaloedd, weithiau gydag ysgolion yn gwneud y trefnu ac weithiau'r Benthyg lleol neu grŵp cymuned. Mae gwisgoedd ysgol yn cael eu casglu a'u didoli'n feintiau. Maen nhw'n cael eu golchi a'u smwddio a gallan nhw gael eu rhoi ar fenthyg am gyfnod fel tymor neu hirach. Gallai hyn fod yn rhan o'ch catalog Benthyg neu gallech chi ei gysylltu â chodi ymwybyddiaeth neu awgrymu i'ch ysgol leol roi cynnig arno fel partneriaeth.



# Modelu sothach

Os oes gennych chi siop sgrap leol beth am ddod ynghyd gyda nhw a chynnig sesiwn.

Does dim rhaid iddo fod yn ystod oriau ysgol – beth am sesiwn ar ôl ysgol sy'n cynnwys rheini. Byddai hyn yn cynnig cyfle i ymgysylltu a recriwtio aelodau a hyd yn oed gwirfoddolwyr.

Neu efallai y bydd eich siop sgrap leol yn gallu cynnal y digwyddiad os ydy'r ysgol yn methu gwneud.

# Darnau rhydd

Os ydy Darnau Rhydd yn cael eu defnyddio yn eich ysgol leol, gallai fod yn gyfle hwylus i siarad am addasu pwrpas ac ailddefnyddio.

Hyd yn oed os nad ydyn nhw, gallech chi drefnu digwyddiad a gwahodd teuluoedd i gymryd rhan.

Mae darnau rhydd yn cael eu defnyddio i sbarduno creadigedd a gwella sgiliau datrys problemau.

Mae'r ddau weithgaredd yn ffyrdd o gyflwyno'r cysyniad o ailddefnyddio ac addasu pwrpas.

Gallech chi ddefnyddio'r gweithgaredd yma ar ôl gofyn i'r plant ddod ag eitemau i mewn o gartref sy'n gallu cael eu defnyddio i greu rhywbeth newydd.

Gallai gael ei gyfuno ag ymweliad â siop sgrap neu siop sy'n chwilio am gartref i ddeunyddiau gwastraff. Efallai hyd yn oed y tip lleol!

www.re-create.co.uk

www.resourcewales.com

# Dweud storïau ac ysgrifennu creadigol

**Ydych chi'n nabod unrhyw storïwyr lleol?** Mae dweud storïau'n ffordd hyfryd o gyflwyno syniad a bydd storïwyr yn gallu dod o hyd i stori briodol i gysylltu ag unrhyw waith rydych chi'n ei wneud gydag ysgol yn ogystal â pharatoi am unrhyw ysgrifennu creadigol. Os ydy'n cael ei ystyried yn brosiect rhwng yr ysgol a'ch llyfrgell, efallai y bydd tipyn bach o arian ar gael i dalu costau storïwr.

Dyma restr o storïwyr. Nid yw'n benodol i Gymru, felly efallai y byddwch chi am gysylltu â Beyond the Border am awgrymiadau lleol.

www.sfs.org.uk/storytellers-directory

www.beyondtheborder.com



Mae **ysgrifennu creadigol** yn gallu bod yn weithgaredd estyn hefyd, a allai gael ei wneud ochr yn ochr â thipyn o arlunio creadigol.

Dyma rai syniadau:

Cerdd acrostig sy'n defnyddio llythrennau **BENTHYG** neu **BORROW (ING)** neu **RHANNU** neu unrhyw air cysylltiedig arall.

- Dychmygu cylch oes gwrthrych o'r dechrau i'r diwedd i ddangos yr economi gylchol
- Ysgrifennu blog neu erthygl ar gyfer newyddlen yr ysgol neu'r papur newydd lleol
- Creu cymeriad comic sy'n annog ailddefnyddio, ailgylchu ac addasu pwrpas



# Cwis

Mae plant wrth eu bodd gyda chwisiau ac mae'n ffordd wych o roi gwybodaeth, gwirio dealltwriaeth ac annog arloesi, ac mae'n ffordd ddifyr o ddechrau neu orffen sesiwn a gallech chi gynnig benthyciadau am ddim i bawb sy'n cymryd rhan fel cymhelliant.

Gallech chi adio rhai cwestiynau sy'n benodol i'ch Benthyg lleol chi, fel faint o weithiau ydy'r golchydd pwysedd wedi cael ei fenthyg yn y 6 mis diwethaf? Allwch chi ddyfalu faint o bebyll sydd gennyn ni? Neu beth am ofyn cwestiwn am arbedion carbon a/neu gost lleol os oes gennych chi'r data.



1. Pa un o'r isod sy'n ffurf ynni adnewyddadwy?
   - ☐ Glo
   - ☐ Ynni niwclear
   - ☐ Gwynt
   - ☐ Nwy naturiol
2. Faint o sbwriel ydy'r person cyfartalog yn ei daflu bob dydd?
   - ☐ 1 cilo
   - ☐ 2 cilo
   - ☐ 5 cilo
   - ☐ 10 cilo
3. Faint o'r sbwriel rydyn ni'n ei daflu sy'n gallu cael ei ailgylchu?
   - ☐ 10%
   - ☐ 20%
   - ☐ 50%
   - ☐ 75%
4. Pa fath o fetelau defnyddiol ydyn ni'n gallu eu canfod mewn gwastraff electronig?
   - ☐ Aur
   - ☐ Arian
   - ☐ Copr
   - ☐ Pob ub ohonyn nhw
5. Pryd mae Diwrnod y Ddaear?
6. Pa un ydy'r math o drafnidiaeth mwyaf eco-gyfeillgar?
   - ☐ Car
   - ☐ Awyren
   - ☐ Beic
   - ☐ Beic modur
7. Faint ydy hi'n cymryd i botel neu jar gwydr ddadelfennu?
   - ☐ 10 mlynedd
   - ☐ 100 mlynedd
   - ☐ 1,000 o flynyddoedd
   - ☐ 40,000 o flynyddoedd
8. Faint o fwyd sy'n cael ei wastraffu mewn blwyddyn?

**Atebion y cwis**

1. Ffynonellau ynni adnewyddadwy ydy'r rhai sy'n doreithiog ac yn adnewyddu'n gyson mewn natur, fel y gwynt!
2. Mae'r person cyfartalog yn taflu 2 gilo o sbwriel i ffwrdd bob dydd. Lluoswch hynny gan 7 biliwn (faint o bobl sydd), ac mae hynny'n lot o sbwriel!
3. Mae 50% yn gallu cael ei ailgylchu a mwy na hynny'n gallu cael ei ailddefnyddio
4. Mae metel yn adnodd sydd ddim yn adnewyddadwy, sy'n golygu bod y ddaear yn ei greu yn naturiol, ond dim ond hyn a hyn o fetel, y byddwn ni'n ei ddefnyddio i gyd os nad ydyn ni'n ofalus. Ond, gallwch chi ailgylchu metel! Mae llawer o fetel defnyddiol, fel aur, arian, neu gopr, i'w gael mewn pethau electronig. Felly yn lle taflu rhywbeth electronig sydd wedi torri, ewch ag ef i ganolfan ailgylchu!
5. Mae Diwrnod y Ddaear yn ein hatgoffa am bwysigrwydd mabwysiadu dulliau o fyw mwy eco-gyfeillgar. Er ei fod yn cael ei ddathlu ar 22 Ebrill, mae bob dydd yn Ddiwrnod y Ddaear!
6. Yn lle llosgi tanwyddau ffosil sy'n llygru ac yn cynhesu'n planed, drwy feicio rydyn ni ond yn llosgi calorïau
7. Bydd potel wydr yn cymryd 40 canrif i ddadelfennu os na chaiff ei hailgylchu. Bydd ailgylchu un botel neu jar gwydr yn arbed digon o ynni i bweru bylb golau am bedair awr
8. Mae 9.5 miliwn tunnell o fwyd yn cael ei daflu bob blwyddyn. Os oedden ni'n compostio cymaint â hynny o fwyd i'w droi yn bridd, byddai'n cael yr un effaith â symud o leiaf hanner miliwn o geir oddi ar ffyrdd

# Cyfnewidfeydd sgiliau


Mae cynnig cyfnewidfeydd sgiliau sy'n agored i deuluoedd cyfan yn opsiwn arall i'w ystyried wrth weithio gydag ysgolion.

Cadwch ddiogelwch mewn cof a chynhaliwch asesiad risg cyn digwyddiad.

Cyhoeddwch alwad am bobl i arddangos sgiliau drwy gyfrwng yr ysgol a'ch cysylltiadau eich hun.

Gwahoddwch eich Caffi Trwsio lleol i ymuno â chi – enghraifft ragorol o greu cydnerthedd o fewn ein cymunedau.



**Dyma rai awgrymiadau am weithgareddau:**

- [ ] Gwneud bara yn y peiriant pobl bara
- [ ] Gwneud jam yn y peiriant pobl bara
- [ ] Defnyddio'r peiriant gwneud popcorn
- [ ] Defnyddio'r peiriant gwneud hufen iâ
- [ ] Defnyddio'r peiriant gwneud pasta
- [ ] Defnyddio dadhydradydd
- [ ] Codi pabell
- [ ] Gemau gardd
- [ ] Defnyddio'r peiriant gwnïo

# Gweithio gydag ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i bob ysgol yng Nghymru fod yn Ysgol Fro sy'n golygu:

- meithrin partneriaeth gryf â theuluoedd
- ymateb i anghenion eu cymuned
- cydweithredu'n effeithiol â gwasanaethau eraill

**Dyma beth mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud am ysgolion ac ymgysylltu â'r gymuned:**

- Gweithredu'n rhan allweddol o'r gymuned leol, cynnig cyfleoedd i ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol am addysg oedolion, gweithgareddau llesiant, gemau, chwaraeon, gweithgareddau diwylliannol a chymunedol eraill.
- Atgyfeirio at wasanaethau cymorth neu gyngor eraill.
- Defnyddio'r sgiliau a'r cyrff sydd o fewn y gymuned i estyn a chyfoethogi cyfleoedd dysgu a dylanwadu'n bositif ar newid.



# Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru

Gallwch chi weld o'r pedwar diben a'r chwe maes dysgu isod bod eich gwaith gyda Benthyg yn gallu cysylltu'n dda.

Nod Cwricwlwm Cymru yw paratoi plant i ffynnu mewn dyfodol lle mae sgiliau digidol, hyblygrwydd a chreadigedd yn holl-bwysig, ac sydd wedi'i wreiddio yng nghwerthoedd a diwylliant Cymru.

## Y pedwar diben

Mae Cwricwlwm newydd Cymru wedi cael ei ddatblygu i gyflawni pedwar diben allweddol. Ei nod yw cynhyrchu plant sydd, neu a ddaw yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- Unigolion iach, hyderus
- Cyfranwyr mentrus, creadigol
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus

**Mae eich llyfrgell pethau yn rhan bwysig o'r gymuned leol a'r gobaith yw y bydd ysgolion yn fwy na hapus i'ch croesawu i rannu syniadau â'r plant a chyfoethogi eu dysgu a'u datblygiad.**

## Meysydd dysgu

Bydd gan Gwricwlwm Cymru chwe maes dysgu.

1 **Y celfyddyau mynegiannol** isy'n ymgorffori celf, dawns, drama, ffilm a chyfryngau digidol, a cherddoriaeth. Bydd yn annog creadigedd a meddwl critigol, ac yn cynnwys perfformiad.

2 **Y dyniaethau** sy'n ymgorffori daearyddiaeth, hanes, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Caiff ei seilio ar brofiadau dynol ac yn trafod diwylliant Cymru yn ogystal.

3 **Iechyd a lles**: mae hwn yn ymdrin ag agweddau corfforol, seicolegol, emosiynol a chymdeithasol bywyd, gan helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles a dysgu sut i reoli dylwnwadau cymdeithasol. Bydd yn cynnwys addysg gorfforol.

4 **Gwyddoniaeth a thechnoleg** sy'n ymgorffori bioleg, cemeg, ffiseg, cyfrifiadureg, a dylunio a thechnoleg.

5 **Mathemateg a rhifedd**: yn y blynyddoedd cynnar, bydd hyn yn golygu dysgu trwy chwarae. Yn nes ymlaen, bydd yn cynnwys gweithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill.

6 **Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu**: bydd hyn yn cynnwys Cymraeg a Saesneg, llenyddiaeth ac ieithoedd rhyngwladol. Bydd addysgu Cymraeg yn dal i fod yn orfodol (fel iaith ychwanegol i blant nad ydyn nhw'n defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf).

Yn ogystal, bydd sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol yn cael eu hymgorffori trwy gydol pob maes y cwricwlwm.

# Ac yn olaf...

...gadewch i ni wybod sut rydych chi'n dod ymlaen wrth weithio gyda'ch ysgolion lleol, a chofiwch fod Benthyg Cymru yma i gynnig ein cefnogaeth ac arweiniad.


Tynnwch ffotograffau lle bo'n briodol a gweiddwch am eich cyflawniadau.


A mynnwch rannu ag aelodau eraill y rhwydwaith fel y cawn ni ddysgu oddi wrth ein gilydd.

Mae ysgolion wrth galon cymunedau a dymunwn fod yno gyda nhw, yn gwneud benthyg mor hawdd â phicio allan am dorth o fara!

**Adnoddau**

Dolenni â rhai dogfennau a fideos eraill a allai fod yn ddefnyddiol i chi.











# Cysylltu

**www.benthyg-cymru.org**

info@benthyg-cymru.org

linkedin.com/company/benthyg-cymru

facebook.com/benthyg

twitter.com/benthyg

instagram.com/benthyg/

Benthyg Rhoi Rhannu

BENTHYG

CYMRU